# Datganiad Blynyddol 2022/2023

## Proffil y Darparwr

### Gwybodaeth Darparwr i'w chyhoeddi

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â gwybodaeth a oedd gan AGC am y darparwr hwn a'i wasanaethau cysylltiedig ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r adran hon wedi cael ei llenwi i chi. Nid oes camau gweithredu i'w cwblhau. Caiff y wybodaeth hon a ddangosir ei chynnwys yn y Datganiad Blynyddol cyhoeddedig.

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr: | Adoption UK Charity |
| Roedd y darparwr wedi'i gofrestru ar: | 03/04/2020 |
| Mae'r canlynol yn rhestru amodau'r darparwr: | Nid oes unrhyw amodau a osodwyd yn gysylltiedig â'r darparwr hwn |
| Y gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarparwyd gan y darparwr hwn oedd: | Adoption UK Cymru Adoption Support Service |

**Adoption UK Cymru Adoption Support Service**

| | |
|---|---|
| Math o wasanaeth | Gwasanaeth Mabwysiadu |
| Math o Ofal | Dim |
| Dyddiad Cymeradwyo | 03/04/2020 |
| Unigolyn/Unigolion Cyfrifol | Emily FRITH |
| Rheolwyr | Annamarie Fawsitt |
| Amodau Gwasanaeth | Nid oes unrhyw amodau yn gysylltiedig â'r gwasana eth hwn |

### Hyfforddiant a Chynllunio Gweithlu

| | |
|---|---|
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant y staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Mae gennym broses 4 pwynt:<br>• Hyfforddiant gorfodol - mae gofyn i bob aelod staff ymgymryd â chyfres o hyfforddiant gorfodol, yn cynnwys diogelu.<br>• Sefydlu: Mae'r holl staff newydd yn ymgymryd â chyfnod sefydlu llawn gyda hyfforddiant craidd penodol a gyda gweithgareddau hy fforddi ac ymwybyddiaeth penodol i wasanaethau<br>• Rôl benodol: Mae pob rôl unigol wedi nodi hyfforddiant sy'n bert hnasol i'r rôl honno<br>• Gwybodaeth drwy berfformiad: Goruchwyliaeth reolaidd, arfarnia d blynyddol a hanner blwyddyn yn sail i greu cynlluniau datblygu proffesiynol blynyddol sy'n manylu ar weithgareddau dysgu a datb lygu a gytunwyd, gan gynnwys hyfforddiant. |
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer recriwtio a chadw'r staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Mae Adoption UK yn defnyddio arferion recriwtio diogel, sydd wedi 'u cynllunio i sicrhau bod yr holl staff sy'n cael eu recriwtio yn bobl addas. Rydym yn cynnal:<br>• Adolygiad llawn o geisiadau sy'n cynnwys hanes cyflogaeth llaw n<br>• Cyfweliad gan banel<br>• Geirdaon, yn cynnwys dilysu<br>• Dilysu cymwysterau<br>• DBS<br>• Gwybodaeth ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth<br>Rydym yn gweithio gyda staff drwy werthuso a chynllunio datblygu i gefnogi cadw staff, gan sicrhau bod staff presennol yn cael eu h ystyried ar gyfer symud ymlaen cyn unrhyw recriwtio allanol ar gyf er swyddi gwag. Rydym yn cynnal cyfweliadau ymadael i hysbysu cadw staff. |

## Proffil Gwasanaeth

### Manylion y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Enw'r Gwasanaeth | Adoption UK Cymru Adoption Support Service |

| | |
|---|---|
| Rhif ffôn | 03006660006 |
| Beth yw'r brif iaith/ieithoedd a ddefnyddir i ddarparu eich gwasanaeth? | Cyfrwng Saesneg |
| Ieithoedd eraill a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth | Cymraeg |

## Darpariaeth Gwasanaeth

### Pobl a Gefnogir

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y bobl y gwnaeth y gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | 620 |

### Cwynion

| | |
|---|---|
| Beth oedd cyfanswm y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 0 |
| Nifer y cwynion gweithredol sydd heb eu penderfynu | 0 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau | 0 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau'n rhannol | 0 |
| Nifer y cwynion na chawsant eu cadarnhau | 0 |
| Pa drefniadau a wnaed ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r modd y cafodd y gwasanaeth ei redeg yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | Caiff pobl sy'n mynychu grwpiau cymunedol ac sy'n derbyn gwasanaethau eu harolygu'n rheolaidd a/neu ar ôl cwblhau'r gwasanaeth.<br>Mae plant a phobl ifanc yn rhoi adborth a'u hawgrymiadau ar bob sesiwn.<br>Mae mynychwyr sesiynau hyfforddi yn cwblhau adborth sy'n graddio eu canfyddiad o'r sesiwn gan gynnwys y cyflwyno a'r dysgu.<br>Anogir unrhyw un sy'n elwa o'n llinell gymorth a'n system alwadau Llinell Gymorth Uwch i anfon eu hadborth atom naill ai drwy e-bost neu drwy ddefnyddio ein ffurflen adborth safonol.<br>Mae staff yn casglu adborth mewn digwyddiadau yn ffurfiol trwy ddefnyddio ffurflen adborth ac ar lafar trwy ymgysylltu â phobl. Mae llawer o staff hefyd yn fuddiolwyr y gwasanaeth.<br>Mae ein Cynghorau Ieuenctid Mabwysiadu yn cynnig adborth ac awgrymiadau gyda'r nod o ddylanwadu ar ein hymarfer.<br>Rydym yn gwrando ar fuddiolwyr gwasanaethau yn rheolaidd drwy ein Fforwm ar-lein a'n cyfryngau cymdeithasol.<br>Mae ein Unigolyn Cyfrifol a'n rheolwyr yn cwrdd â buddiolwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a staff gan fanteisio ar bob cyfle i gasglu barn am ein gwasanaethau. |

### Cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Nodwch unrhyw ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) | Na |
| Triniaeth ac Addysg Plant sydd ag Awtistiaeth ac Anabledd Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH) | Na |
| Makaton | Na |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | Na |
| Arall | Na |

### Datganiad Cydymffurfio

Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol baratoi'r datganiad cydymffurfio.

Mae AGC wedi cyhoeddi canllawiau ar gwblhau'r adolygiad o ansawdd y gofal sy'n cynnwys cyngor ar yr hyn y gellid ei gynnwys yn y datganiad cydymffurfio.

Trefnwch eich datganiad cydymffurfio'n unol â'r pedwar maes llesiant isod.

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt. | Mae Adoption UK yn gwneud ei orau i sicrhau bod ein buddiolwyr gwasanaeth yn ganolog i'r hyn a wnawn. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mesuriadau effaith, fel ein hasesiad graddfeydd teuluol fel rhan o'n gwasanaeth therapiwtig Llwybrau, a'n hyfforddiant pwrpasol ar wrthwynebiad di-drais (NVR). Rydym hefyd yn defnyddio arolygon adborth cleientiaid i gasglu barn ar y gefnogaeth a ddarparwn, gan gynnwys ein cynnig hyfforddiant a grwpiau a digwyddiadau cymunedol. Rydym yn defnyddio'r adborth hwn – yn ganmoliaeth ac yn gwynion - er mwyn mireinio'r gefnogaeth a ddarparwn. Er enghraifft, mewn ymateb i adborth fe wnaethon ni ddiwygio ein cynnig hyfforddi i gynnwys cwrs hyfforddi chwe sesiwn pwrpasol ar NVR ar gyfer teuluoedd unigol a oedd yn gweld hyn yn well na rhannu profiadau anodd mewn grŵp. Mae ein cyfres o bynciau hyfforddi yn cael eu dylanwadu gan deuluoedd sydd wedi mynegi anghenion, er enghraifft, beth i'w ystyried wrth ddewis ysgol, mabwysiadu pan fo plentyn yn y teulu yn barod.<br><br>Roedd 100% o'r rhai sy'n rhoi adborth ar ein gwasanaeth Llwybrau yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed. Mae rhieni sy'n mynychu grwpiau cymunedol yn darparu adborth cadarnhaol yn gyson. Dywedodd rhieni y mae eu plant yn mynychu ein gwasanaeth Connected yn ein harolwg diweddaraf 'Mae'r tîm yn wych gyda phlant. Maen nhw'n dangos dealltwriaeth o unrhyw gyflwr emosiynol y mae'r plant ynddo, gan ymateb a rhyngweithio'n dda i'w helpu i reoleiddio eu teimladau ond nid eu lleihau.'<br><br>Rydyn ni wedi ennill Nod Barcud Cyfranogiad eleni ar gyfer ein gwasanaeth Connected sy'n dangos y ffordd rydyn ni'n cynnwys pobl ifanc ac yn rhoi eu barn wrth galon yr hyn a wnawn.<br><br>Fel rhan o'n gwaith ar gyfer y gwasanaeth CONNECT, rydyn ni wedi sefydlu dau Gyngor Ieuenctid o bobl ifanc a fabwysiadwyd i ddylanwadu ar ein gwaith ac ar waith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r ddau yn cwrdd ar-lein, un ar wahân ar gyfer y rhai 14+ oed ac un arall ar gyfer y grŵp oedran 18-30. Mae'r ddau wedi gweithio'n galed drwy'r flwyddyn wrth osod eu hagenda a chynhyrchu peth cynnyrch gwych gan gynnwys Cylchlythyr sy'n llawn o bethau diddorol i'w darllen o safbwynt person ifanc, mabwysiedig a Siarter Mabwysiadu. Maen nhw hefyd wedi helpu i gynhyrchu gwefan ar gyfer y gwasanaeth CONNECT sydd wedi'i anelu at blant a phobl ifanc mabwysiedig. Mae'r bobl ifanc hyn wedi cael amrywiaeth o gyfleoedd i leisio eu barn, gan gynnwys cwrdd â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg, a chreu podlediad eu hunain am eu profiadau o fabwysiadu. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'r bobl ifanc i ddylanwadu ar y gefnogaeth a ddarparwn a'r amrywiaeth o weithgareddau y mae'r grŵp yn cymryd rhan ynddyn nhw. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn hapus ac yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol yn barhaus. Ar gyfer plant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol. | Yn seiliedig ar dystiolaeth ansoddol a meintiol, rydw i'n teimlo'n hyderus bod ein buddiolwyr gwasanaeth yn hapus ac yn cael cefnogaeth i gynnal eu hiechyd a'u lles parhaus. O'r adroddiad cydymffurfio diweddaraf a welais i, er enghraifft: roedd 90% o'r rhai sy'n darparu adborth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ein digwyddiadau cymunedol, roedd 99% yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ein darpariaeth hyfforddi, roedd 94% yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ein gwasanaeth Llwybrau. Roedd y gwasanaeth hwn hefyd yn mesur y canlyniadau ar ôl i gymorth gael ei ddarparu. Ar gyfartaledd, adroddodd ymatebwyr fod cyfanswm o 3 phwynt ar y raddfa o ran y gefnogaeth yr oedden nhw'n teimlo, newid o 2.39 pwynt o ran pa mor dda y maen nhw'n teimlo ynddynt eu hunain a newid cadarnhaol yn gyffredinol o 1.89 pwynt.<br>Fel y dywedodd un mabwysiadwr: 'Mae'r rhwydwaith cymorth y mae Adoption UK yn ei ddarparu yn gwbl hanfodol i deuluoedd sy'n mabwysiadu. Mae pawb mor gyfeillgar ac mae'n dod yn fyd bach wrth i chi ddod i adnabod teuluoedd eraill. Rydw i bob amser yn gadael digwyddiadau yn teimlo wedi f'adfywio, fy ysgogi ac wedi fy neall." Ysgrifennodd un arall: "'Fe wnaethoch chi fy helpu pan oeddwn i ar ben fy nhennyn."<br>Mae ein gwasanaeth Llwybrau Therapiwtig yn pwysleisio'r angen i rieni gymryd rhan yn eu hunanofal eu hunain er mwyn iddynt allu parhau i gefnogi eu plant. Mae hon yn thema bwysig yn y grwpiau Adlewyrchol sy'n cael eu cynnig fel rhan o'r gwasanaeth hwn, ac mae ein Bwletin rheolaidd yn cynnwys erthyglau ar y thema hon.<br>Mae ein grwpiau cymorth cymunedol yn cynnig cefnogaeth barhaus gan gymheiriaid i'r rhai y mae mabwysiadu yn effeithio arnyn nhw ac mae'r rhain yn cynnwys rhai sesiynau ar thema (gan gynnwys 'yoga chwerthin' yn ddiweddar!).<br><br>Dywedodd y bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu deall a'u trin â pharch, maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn teimlo eu bod yn cael gofal a'u bod yn ddiogel. Gan ddefnyddio system raddio 5 seren roedd cyfartaledd ymateb pobl ifanc yn 4.6. Rydyn ni hefyd yn gofyn i rieni am yr effaith ar ddatblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol eu plant, ac rydyn ni'n derbyn adborth cadarnhaol iawn: "Maen nhw'n edrych ymlaen at fynd i weld ei ffrindiau arbennig. Maen nhw hefyd wrth ei bodd yn pobi, diolch i'r sesiynau gwneud pizzas a theisennau bach gyda Connected, maen nhw wedi bod yn pobi gartref ac maen nhw bellach wedi dewis gwneud Arlwyo fel opsiwn TGAU. "<br><br>"Er ein bod yn cael trafferth gyda phryder o hyd, mae mwy o hyder yn amlwg. Mae mwy o hunan-ganmoliaeth a chred ei fod yn dda am wahanol bethau a pharodrwydd i drïo rhywbeth newydd a pheidio poeni os nad yw popeth yn mynd yn union fel y bwriad." |
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | Mae Adoption UK yn cynnal system gadarn ar gyfer cofnodi ac adrodd am unrhyw ddigwyddiadau diogelu, gan gynnwys adolygiad chwarterol i'r Unigolyn Cyfrifol a'n Pwyllgor Ymarfer a Diogelu. Mae gennym rota y tu allan i oriau sydd bellach wedi hen ennill ei blwyf ac sy'n cael ei ddefnyddio gan staff i gynorthwyo gydag ymateb a gwneud penderfyniadau. Mae ein system ddata wedi cael ei hadolygu i wella'r adrodd am faterion diogelu. Mae archwiliadau ffeil wedi cael eu gwneud ac mae materion/bylchau wedi'u bwydo'n ôl i'r tîm staff. Mae hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu sy'n canolbwyntio ar achosion wedi'i ymgorffori mewn cyfarfodydd tîm yn ogystal â hyfforddiant diogelu gorfodol i'r holl staff. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth fel yr amlinellir uchod yn dangos bod ein buddiolwyr gwasanaeth yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi gan y gwasanaethau a rydyn ni'n eu cynnig. Fel y dywedodd un mabwysiadwr: "Mae dweud 'diolch' yn teimlo'n annigonol ac yn ddibwys. Pan oeddwn i'n teimlo'n isel ac yn fwyaf ofnus, roeddech chi yno fel ffagl o wybodaeth, gofal a llonyddwch. Yn syml, fedra i ddim diolch ddigon i chi am fy nghlywed, fy nilysu a rhoi'r dewrder i mi ymddiried ynof fy hun." |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Nifer y swyddi a throsiant staff

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn yn y gwasanaeth (ar 31 Mawrth) | 72 |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am bob math o staff gan gynnwys gwybodaeth am nifer y swyddi sydd wedi'u llenwi ac sy'n wag, yr hyfforddiant a gafwyd, y trefniadau cytundebol sydd ar waith a chymwysterau'r staff hynny.

Dylai'r wybodaeth a gofnodir ymwneud â'r cyfnod y mae'r aelod o staff wedi bod yn gweithio i'r darparwr yn unig.

Y Math o Staff

Rheolwr y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 1 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 0 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 1 |
| Codi a Chario | 0 |
| Diogelu | 2 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 1 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | • Gwrthwynebiad di-drais<br>• GDPR<br>• Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl<br>• Ymwybyddiaeth o ADHD |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 1 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 1 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

### Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 1 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 0 |

| Dirprwy reolwr y gwasanaeth | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Na |

| Aelodau eraill o staff goruchwylio | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

### Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 8 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 0 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 8 |
| Codi a Chario | 0 |
| Diogelu | 8 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 8 |
| Hylendid Bwyd | 1 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | • Gwrthwynebiad di-drais<br>• GDPR<br>• Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl<br>• Ymwybyddiaeth o ADHD<br>• Sgiliau cwnsela |

### Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 8 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 4 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 4 |

| | |
|---|---|
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

## Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol | 0 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 0 |

| Uwch-weithwyr gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Na |

| Gweithwyr gofal cymdeithasol eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Na |

| Mathau eraill o staff | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys unrhyw fathau o rolau ychwanegol ar wahân i'r rheini a gaiff eu rhestru eisoes? | Ie |
| Rhestrwch deitl(au) y rôl a disgrifiad byr o gyfrifoldebau'r rôl. | • Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: 0<br>• Gweithwyr ieuenctid: 2 – Cymwysterau mewn gwaith ieuenctid - pob un wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg<br>• Therapyddion/Seicolegwyr: - 7 – Wedi cymhwyso mewn seicoleg glinigol a seicotherapi, pob un wedi cofrestru gyda'r UKCP, Cymdeithas Seicolegol Prydain, Cyngor Proffesiynau Gofal Iechyd (HCPC), Cymdeithas Therapi Teulu, fel sy'n berthnasol.<br>• Staff arall -<br>o Hyfforddwyr 1<br>o Gweithwyr cynnal ieuenctid 3, Gweinyddwyr 5, Partneriaid cymorth cymheiriaid: 20 |

## Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 41 |
| Nifer y swyddi gwag | 4 |

## Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 5 |
| Iechyd a Diogelwch | 5 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 47 |
| Codi a Chario | 5 |
| Diogelu | 47 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 47 |
| Hylendid Bwyd | 2 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | • Gwrthwynebiad di-drais<br>• GDPR<br>• Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl<br>• Ymwybyddiaeth o ADHD<br>• Sgiliau cwnsela |

## Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 47 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |

| | |
|---|---|
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |
| Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos. | |
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 21 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 26 |
| Cymwysterau Staff | |
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol | 9 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 0 |